VILE, THOMAS HENRY (1882 - 1958), chwaraewr rygbi

Enw: Thomas Henry Vile
Dyddiad geni: 1882
Dyddiad marw: 1958
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: chwaraewr rygbi
Maes gweithgaredd: Chwaraeon a Gweithgareddau Hamdden
Awdur: Gareth W. Williams

Ganwyd 6 Medi 1882 yng Nghasnewydd, Mynwy. Cafodd yrfa hynod ym myd rygbi fel chwaraewr (8 cap dros Gymru 1908-21), dyfarnwr (12 gêm ryngwladol 1923-28) a gweinyddwr (llywydd Undeb Rygbi Cymru 1955-56). Yr oedd ei rawd fel chwaraewr yn hir i'w ryfeddu. Cafodd ei gyfle cyntaf gyda chlwb Casnewydd fel aelod o'r trydydd tîm yn 1900. Erbyn 1902 yr oedd yn fewnwr y tîm cyntaf. Yn 1904 aeth ar daith gyda'r tîm Prydeinig i Awstralia a Seland Newydd. Oherwydd presenoldeb Richard M. (' Dickie ') Owen yn nhîm Cymru, bu rhaid iddo aros tan 1908 cyn ennill ei gap cyntaf. Gwnaed yn gapten clwb Casnewydd yn 1909, a datblygodd y bartneriaeth rhyngddo ef a Walter Martin yn un o'r disgleiriaf erioed. Yr oedd ganddo feddwl tactegol miniog. Llywiodd Gasnewydd i'w buddugoliaeth hanesyddol (9-3) dros Dde Affrica yn 1912. Er mawr syndod iddo ef a phawb arall, galwyd ef yn ôl i fod yn gapten tîm Cymru yn 1921, yn 37 oed. Cafodd yrfa nodedig fel milwr, gŵr busnes a gweinyddwr cymdeithasol. Bu'n Uchel-Siryf sir Fynwy yn 1944. Bu farw 30 Tachwedd 1958 yng Nghasnewydd.

Awdur

Yr Athro Gareth W. Williams

Ffynonellau

W. J. T. Collins, *Rugby Recollections* (1948) (1948)

South Wales Argus, a *Western Mail*, 1 Rhagfyr 1958

The Times, 2 Rhagfyr 1958

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 173030544

Wikidata: Q7819968

Dyddiad cyhoeddi: 1997

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

PDF Argraffu Cyfeirnodi

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu

Arddull APA

×

Williams, G. W., (1997). VILE, THOMAS HENRY (1882 - 1958), chwaraewr rygbi. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 14 Awst 2024, o https://bywgraffiadur.cymru/article/c4-VILE-HEN-1882

Copïo'r cliprwydd

Preifatrwydd a Chwcis
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LLGC
NLW
LLYFRGEL
THE NATI
Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government